# Cwis mawndiroedd

**Amser a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd** 15 - 20 munud

**Lleoliad** Dan do neu yn yr awyr agored

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn rhannu syniadau ar sut i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r rôl bwysig y mae mawndiroedd yn ei chwarae mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr awyr, y tir, y dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell ar gyfer pawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Y Dyniaethau |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau. | |

## Amcanion

**Bydd dysgwyr yn gallu:**

- Deall a rhannu rhai o'r rhesymau pam mae mawndiroedd yn bwysig.
- Deall bod mawndiroedd yn dod â nifer o wahanol fathau o fuddion i bobl ac i'r amgylchedd.

## Offer ac adnoddau a awgrymir

- Cardiau adnoddau – Cwis mawndiroedd
- Datganiadau ac atebion – Cwis mawndiroedd

## Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Gellid chwarae'r cwis rhyngweithiol hwn fel cyflwyniad i fawndiroedd i fesur gwybodaeth flaenorol dysgwyr, neu gellid ei chwarae fel gweithgaredd sesiwn lawn i asesu faint mae dysgwyr wedi'i ddysgu a'i ddeall am fawndiroedd.
- Gellir cynnal y gweithgaredd hwn fel cwis gyda thimau o ddysgwyr yn cystadlu i fynd i'r afael â'r cwestiynau ar y daflen Datganiadau ac atebion. Gellir defnyddio'r Cardiau adnoddau – Cwis mawndiroedd fel prompt gweledol ar gyfer eich dysgwyr. Y tîm a gaiff y mwyaf o gwestiynau'n gywir sy'n ennill.
- Fel arall, fe allech chi ddarllen y cwestiynau gwir neu gau o'r daflen Datganiadau ac atebion a gofyn i'r dysgwyr bleidleisio gyda'u traed o ran a ydyn nhw'n meddwl bod y datganiadau yn wir neu gau. Os ydyn nhw'n pleidleisio'n gywir, maen nhw'n aros yn y gêm. Os ydyn nhw'n ateb yn anghywir, maen nhw allan. Y dysgwr olaf ar ei draed yw'r enillydd. Gellir defnyddio'r Cardiau adnoddau – Cwis mawndiroedd fel prompt gweledol.
- Gellid herio'r dysgwyr hefyd i ymchwilio ac ysgrifennu eu cwis eu hunain i atgyfnerthu'r dysgu.

## Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Pa wasanaethau neu fuddion y mae mawndiroedd yn eu rhoi i ni?
- Beth allwn ni ei wneud ar lefel bersonol i helpu i warchod mawndiroedd?

## Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Dewiswch pa gwestiynau i'w gofyn i'ch dysgwyr ar sail gallu a gwybodaeth flaenorol eich grŵp.
- Gadewch i'ch dysgwyr ymarfer cyn gwneud y cwis yn gystadleuol.

## Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

Rhowch gynnig ar y canlynol:

- Cynllun gweithgaredd – Pam mae mawndiroedd yn bwysig?
- Cynllun gweithgaredd – Sut mae mawn yn ffurfio?
- Cynllun gweithgaredd – Her hidlo dŵr

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**

NATURA 2000

Life

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**